Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaethau achos

# Y Prosiect Wellbeeing a'n Perllan-Our Orchard

### Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Ynghyd â'n prosiect Ein Perllan-Our Orchard yn Ysbyty Prifysgol Llandochau, rydym hefyd wedi sefydlu'n prosiect Wellbeeing. Amcan hirdymor y prosiect hwnnw yw creu Gardd Wenyn yn Ein Perllan yn Ysbyty Prifysgol Llandochau, ynghyd â gosod cychod gwenyn ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae'r prosiectau hyn yn gwireddu ac yn cyfrannu at ein hymrwymiad i'r nodau llesiant cenedlaethol a bennwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac i Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio. Maent, felly, yn helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein poblogaeth.

---

## Gweledigaeth y Prosiect Wellbeeing: Pryfed Peillio a Chychod Gwenyn

Drwy ddod â gwenyn mêl i safleoedd y Bwrdd Iechyd, gallwn helpu pobl i ddeall eu hamgylchedd a gwella'r mannau sydd ar gael i gleifion, ymwelwyr a'r gymuned leol. Mae staff Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, ynghyd â staff Prifysgol Caerdydd, wedi bod yn frwdfrydig iawn am y prosiectau hyn ac wedi dangos cryn ddiddordeb ynddynt, ac maent yn parhau i'w cefnogi a'u datblygu.



Ar ôl trafod gyda'r staff, dewiswyd mannau ar safleoedd dau o ysbytai Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro lle byddai modd gosod cychod gwenyn, a rhoddwyd dau gwch gwenyn ar bob safle. Cafwyd cyngor arbenigol oddi wrth Natures Little Helpers, sy'n gwmni lleol ac yn hyfforddwyr cadw gwenyn. Darparwyd cyngor a hyfforddiant ychwanegol gan NewLink Cymru, drwy eu menter Buzzin.

Mae'r fenter honno'n meithrin cysylltiadau â phobl sydd wrthi'n ymadfer ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau ac mae cadw gwenyn yn un o'r amrywiaeth eang o weithgareddau llesiant a gynigir ganddi. Yn 2019, roeddem yn falch o gael croesawu 4 cwch gwenyn i'w priod leoliadau.

**Lleoliad 1:**
Uned Llanfair, Ysbyty Prifysgol Llandochau (yn ymyl safle Ein Perllan). Mae'r cychod gwenyn hyn yn cael eu rheoli gan staff o Uned Iechyd Meddwl Hafan y Coed i Oedolion, ac yn eu plith y mae hyfforddwyr Technegol Therapi, gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, a chynorthwywyr nyrsio. Gobeithir y byddant yn gallu cefnogi gwaith NewLink Cymru, gan barhau i weithio mewn partneriaeth ac i ddarparu cysylltiadau a chynnig cymorth i'w cleientiaid.

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lleoliad 2:
Adeilad Cochrane, Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mewn partneriaeth â staff Prifysgol Caerdydd, mae'r tîm hwn yn cynnwys unigolion o'r Adran Ystadau, yr Ysgol Feddygaeth, a'r gwasanaeth llyfrgelloedd. Gan adeiladu ar waith yr Athro Les Baillie a chydweithwyr o Ysgol Fferylliaeth y Coleg Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd ym Mhrifysgol Caerdydd, gobeithir y bydd yr amgylchedd lleol yn cael ei ddadansoddi gan ymchwilwyr a fydd yn cynnal profion i weld a oes cysylltiadau rhwng yr ardaloedd lle mae'r gwenyn yn byw, a sut y mae'r gwenyn yn cynhyrchu mêl sy'n ddigon cryf i fod yn wrthfacterol. Gwelwyd bod mêl yn cynnwys nifer o gyfansoddion gwrthfacterol newydd sy'n deillio o blanhigion, a bod y cyfansoddion hynny'n lladd bacteria ag ymwrthedd i wrthfiotigau, megis MRSA, sydd i'w gweld mewn ysbytai. Mae hwn yn gyfraniad arall i'r wybodaeth ymchwil a allai helpu i ddatblygu cynhyrchion a allai ymladd heintiau sydd ag ymwrthedd, a helpu i wella'n cleifion.

Mae Natures Little Helpers a NewLink Cymru yn parhau i gefnogi'r prosiect drwy gynnig hyfforddiant a chyngor a darparu offer. Mae staff o bob tîm wedi cael hyfforddiant cychwynnol ar gadw gwenyn ac os bydd hynny'n briodol, byddant yn cael hyfforddiant uwch. Mae'r cychod gwenyn wedi cael eu cofrestru ar wefan BeeBase Uned Wenyn Genedlaethol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae'r prosiect Wellbeeing yn gweithio mewn partneriaeth â'n prosiect Ein Perllan-Our Orchard i helpu i wella bioamrywiaeth amgylcheddau lleol, ac i helpu i beillio coed a phlanhigion.



# Ein Perllan-Our Orchard

Mae Ein Perllan-Our Orchard yn brosiect unigryw (ac yn brosiect datblygu hirdymor) ar dir Ysbyty Prifysgol Llandochau.



Mae ar agor i'r gymuned, i gleifion, ymwelwyr a staff, ac mae'n golygu eu bod yn gallu mwynhau'r awyr agored a'r amgylchedd naturiol, gan helpu i wella'u hiechyd a lles a chael aros yn agos i'r ysbyty ar yr un pryd.

Mae Ysbyty Prifysgol Llandochau yn prysur dyfu i fod yn ysbyty ail fwyaf Cymru ac yn datblygu'n ganolfan lle gall cleifion orffwys, gwella ac adsefydlu.

Ymhlith y cyfleusterau yno y mae'r Uned Iechyd Meddwl i Oedolion yn Hafan y Coed, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Oedolion â Ffibrosis Systig, a datblygiad Rookwood a fydd yn gartref i wasanaethau adsefydlu ar gyfer cleifion sydd wedi cael anafiadau i'r ymennydd neu'r asgwrn cefn.

Yn aml, mae gan lawer o'r gwasanaethau hyn gleifion sy'n gallu bod yn yr ysbyty am gyfnodau hir iawn.

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'n hanfodol, felly, bod mannau gwyrdd ar gael, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hawdd i bobl eu cyrraedd, a hynny oherwydd bod tystiolaeth yn dangos eu bod yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd corfforol ac ar iechyd meddwl.

Mae nifer o gynefinoedd gwahanol ar safle'r Berllan, gan gynnwys gwrychoedd, ardaloedd o goetir, dolydd, a'r berllan gymunedol (lle plannwyd coed o stociau treftadaeth er cof am bobl), a'n nod yw denu pryfed peillio a gwenyn i'r ardal, gan greu a chefnogi amgylchedd amrywiol a deniadol.



Mae'r prosiect hirdymor hwn yn dal i gael ei gefnogi a'i ddefnyddio gan amryfal grwpiau ac unigolion, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, ysgolion lleol, grwpiau bywyd gwyllt a grwpiau cymunedol, Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol Ysbyty Prifysgol Llandochau, cwmnïau lleol (h.y. Admiral, Principality), Dŵr Cymru, a Siediau Dynion Caerdydd.



Mae prosiectau i feithrin cysylltiadau ac i ennyn diddordeb yn lleol wedi cynnwys creu a gosod gwesty ar gyfer pryfed gyda chymorth plant Ysgol Gynradd Llandochau, monitro'r ddôl, gan adael pentyrrau o foncyffion ar draws y safle er mwyn parhau i ddarparu cynefin diogel ar gyfer pryfed peillio ac ar gyfer yr amrywiaeth ehangach o fywyd gwyllt.

Oherwydd nad yw cyllid y GIG yn cyfrannu at ddatblygu a chynnal y prosiectau hyn, rydym yn parhau i'w hyrwyddo drwy amrywiaeth o fentrau. Mae'r mentrau hynny wedi cynnwys gwerthu Pelenni Gwenyn i'r staff a'r cyhoedd. Mae'r pelenni hyn o hadau blodau gwyllt yn cynnwys cymysgedd o 10 o hadau blodau gwyllt brodorol Prydain (a ddynodwyd yn "Beillwyr Perffaith" gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol) mewn pridd wedi'i ogrwn i'w wneud yn fân, a chlai lleol. Rydym yn annog pobl i'w cymryd neu i'w rhoi i gyfaill er mwyn iddynt gael eu gwasgaru ar dir agored a baratowyd ymlaen llaw.



Rydym yn parhau i feithrin y cysylltiadau â'r staff, y gymuned leol a gwirfoddolwyr, ac i rannu gwybodaeth gyda nhw, gan wneud hynny drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a diwrnodau gwirfoddoli.